**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref Deiseb P-05-1008
Ein cyf/Our ref KW/04524/20
Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Deisebau@Senedd.Cymru

21 Awst 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth ddyddiedig 12 Awst ynghylch Deiseb P-05-1008 Dysgu cymorth cyntaf iechyd meddwl yn ysgolion Cymru.

Mae iechyd meddwl a lles dysgwyr yn fater hynod o bwysig i mi. Mae gan ysgolion gyfle ar hyn o bryd i edrych ar y materion hyn o fewn y cwricwlwm presennol fel rhan o ABCh, ac fel y gwyddoch o 2022 ymlaen bydd [Cwricwlwm newydd i Gymru](#).

Wrth galon fframwaith y Cwricwlwm i Gymru mae pedwar diben sydd wedi sydd wedi bod yn ganolog i bob penderfyniad a wnaed am y cwricwlwm newydd. Un o'r pedwar diben yw helpu plant a phobl ifanc i fod yn unigolion iach a hyderus, sydd yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi.

Lluniwyd y Cwricwlwm i Gymru i gyfrannu cymaint â phosib at y pedwar diben. Maent yn gosod dibenion sylfaenol addysg sy'n sail i'r hyn y dylem anelu at ei gyflawni i'n plant a'n pobl ifanc.

Mae'r cwricwlwm newydd yn cynnwys Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Dyma ran arloesol o'r cwricwlwm newydd, ac mae'n ceisio sicrhau bod cyfleoedd dysgu a chymorth ar faterion fel iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol yn cael eu darparu i bob person ifanc yng Nghymru. Lluniwyd y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles i helpu i ddatblygu egwyddorion sylfaenol iechyd a lles ymysg dysgwyr, gan ganiatáu i weithwyr proffesiynol rannu cynnwys penodol fel sy'n briodol i'w dysgwyr.

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn rhoi cyfle i bob ysgol lunio a mabwysiadu eu cwricwlwm eu hunain. Mae'n annog ysgolion i adeiladu eu gweledigaeth eu hunain ar gyfer eu dysgwyr o fewn cyd-destun y pedwar diben a'r dysgu sy'n cael ei ddiffinio ar lefel genedlaethol. Dylai ysgolion ac ymarferwyr ddefnyddio canllawiau ac adnoddau er mwyn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

penderfynu pa brofiadau, gwybodaeth a sgiliau penodol fydd yn helpu eu dysgwyr i wireddu'r pedwar diben, yng nghyd-destun y cysondeb sy'n cael ei ddarparu gan y fframwaith cenedlaethol.

Er nad yw canllawiau'r cwricwlwm newydd yn cynnwys rhestr hir o bynciau unigol, mae'n nodi'r hyn y dylai ysgolion ei ystyried wrth lunio eu cwricwlwm a'r disgwyliadau bras ar gyfer dysgwyr.


Bydd ysgolion yn cael yr hyblygrwydd i ddewis y cynnwys sydd fwyaf addas ar gyfer diwallu anghenion eu dygwyr o fewn eu cyd-destun penodol. Bydd gan ddysgwyr o wahanol gefndiroedd amrywiol anghenion, ac mae'r Fframwaith yn cynnig cyfle i ysgolion a darparwyr ddewis y profiadau, gwybodaeth a sgiliau penodol, yn ogystal â phynciau, gweithgareddau a chyd-destunau penodol gorau i helpu gyda'r dysgu o fewn y Fframwaith. Mae hyn yn golygu y bydd modd i ysgolion ddysgu cymorth cyntaf iechyd meddwl o fewn eu cwricwlwm, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys elfennau gorfodol, gan gynnwys Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad. Un o'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ar gyfer Iechyd a Lles yw 'Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol'. Dan y datganiad hwn, bydd dysgwyr yn cael eu cynorthwyo i edrych ar gymhlethdodau'r cysylltiadau rhwng eu profiadau, eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol. Bydd hyn yn eu galluogi i ddeall eu teimladau a datblygu strategaethau i'w helpu i reoli eu hemosiynau, a all gyfrannu at iechyd meddwl a lles emosiynol cadarnhaol. Bydd rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau a rhyddid i fynegi eu teimladau yn helpu i greu diwylliant lle mae siarad am iechyd meddwl a lles emosiynol yn weithred arferol.

Mae canllawiau 'Cynllunio Eich Cwricwlwm, a gyhoeddwyd i helpu ysgolion i roi fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar waith, yn egluro bod angen i ddysgwyr ddeall y cysylltiadau rhwng iechyd meddwl a lles emosiynol, sut y gall iechyd meddwl a lles emosiynol effeithio arnynt, ac y gall ein hiechyd meddwl newid dros amser. Dylai ysgolion sicrhau bod eu systemau cymorth ac ethos yr ysgol gyfan yn galluogi dysgwyr i siarad yn agored, nid yn unig am eu hiechyd meddwl, eu teimladau, eu meddyliau a'u hemosiynau eu hunain, ond hefyd rhai pobl eraill.

Gobeithio bod hyn yn egluro'r sefyllfa.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education